**<u>Cyfarfod Gweinidogol y Trydydd Sector: Economi</u>**

**Nodiadau'r cyfarfod ar 1 Tachwedd 2021**

**Rhestr o Fynychwyr**

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Ben Lloyd **(BL)** | CGGC |
| Gurmit Singh Randhawa **(GSR)** | Cyngor Rhyng-ffydd Cymru |
| David Hagendyk **(DH)** | Dysgu a Gwaith |
| Susie VentrisField **(SV)** | Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru |
| Clare Rudall **(CR)** | Busnes yn y Gymuned |
| Michelle Rowson-Woods **(MRW)** | Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo |
| David Williams **(DWi)** | Llais y Goedwig |
| Derek Walker **(DWa)** | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Tabea Wilkes **(TW)** | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Peter Williams **(PW)** | Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru |
| Matthew Williams **(MW)** | Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| San Leonard **(SL)** | Cwmnïau Cymdeithasol Cymru |
| Matthew Brown **(MB)** | CGGC |
| **Llywodraeth Cymru** | |
| Vaughan Gethin SM **(MEcon)** | Gweinidog yr Economi (CADEIRYDD) |
| Julian Carpanini **(JC)** | LlC |
| Claire McDonald **(CM)** | LlC |
| Vanessa Dean Richards **(VDR)** | LlC |
| Andrew Chapman **(AC)** | LlC |
| Chris Buchan **(CB)** | LlC |
| Janet Owen Jones **(JOJ)** | LlC |
| Peter Ryland **(PR)** | LlC |
| Jonathan Price **(JP)** | LlC |
| Jonathan Bonville-Ginn **(JBG)** | LlC |
| Andrew Lock **(AL)** | LlC |
| **Ymddiheuriadau** | |
| Fiona Reid | Chwaraeon Anabledd Cymru |
| Dafydd Gruffydd | Menter Môn |

**Eitem 1 ar yr Agenda – Cyflwyniad**

Croesawodd **MEcon** bawb i'r cyfarfod a diolchodd i aelodau'r trydydd sector am roi eu papurau trafod ymlaen llaw. Amlinellodd **MEcon** y ddau brif fater sydd angen eu trafod, sef pwysigrwydd menter gymdeithasol a busnesau yn symud ymlaen yn ogystal â phryder y trydydd sector dros gyflwyno rhaglenni cyllido presennol Llywodraeth y DU a'u cyfeiriad.

**Eitem 2 ar yr Agenda – Papur Menter Gymdeithasol, (Canolfan Cydweithredol Cymru).**

Gwnaeth **MEcon** wahodd **DWa** i nodi'r pwyntiau allweddol yn y papur menter gymdeithasol. Pwysleisiodd **DWa** bwysigrwydd economi wyrddach ac atgoffodd bawb y dylai newid hinsawdd fod yn flaenoriaeth wrth ddatblygu busnesau, (yn enwedig ar hyn o bryd gyda COP26). Amlinellodd **DWa** y dull gweithredu cynaliadwy a thraddodiadol a gyflawnir gan fenter gymdeithasol yng Nghymru. Hefyd, cyfeiriodd **DWa** at y cysylltiadau clir rhwng menter gymdeithasol a'r rhaglen ar gyfer amcanion y llywodraeth. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar benderfynu sut y gallai'r sector a Llywodraeth Cymru weithio orau fel partneriaid. Awgrymodd **DWa** y pwyntiau canlynol:

- Defnyddio proffil **MEcon** i gynyddu proffil y sector yng Nghymru a thu hwnt. Mae gwaith wedi'i gyflawni mewn sefydliadau addysgiadol, fodd bynnag, byddai'n dda gwneud rhagor o gynnydd, (er enghraifft ehangu'r gwaith a gyflawnir eisoes gydag Ysgol Busnes Caerdydd). Gofynnwyd i **MEcon** helpu i godi ymwybyddiaeth o fentrau cymdeithasol mewn gwahanol gyfarfodydd, digwyddiadau a fforymau.
- Ychwanegu at gysylltiadau clir ag amcanion polisïau. Esboniodd **DWa** sut roedd cysylltiadau clir â pholisïau yn y rhaglen lywodraethu a gofynnodd sut y byddai'r ymrwymiadau hyn yn cael eu cyflawni.

Pwysleisiodd **MEcon** bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i gyflawni amcanion ac roedd yn gadarnhaol ynghylch menter gymdeithasol yn cael mynediad at gyllid cymorth busnes ehangach. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn awyddus i gefnogi perchnogaeth gan y gweithwyr fel model olyniaeth, yn ogystal â sicrhau bod ymrwymiadau'r rhaglen lywodraethu'n cael eu trafod a'u cyflawni drwy weithio gyda rhanddeiliaid. Gwnaeth **MEcon** gydnabod y safon a gyflawnir gan fenter gymdeithasol (y brif fantais) o ystyried bod swm sylweddol o waith yng Nghymru'n cael ei gyflawni gan unigolion o ardaloedd difreintiedig. Pwysleisiodd **MEcon** hefyd y realiti ynghylch effaith cyllideb ar y gallu i gyflawni amcanion.

Diolchodd **DWa** i **MEcon** a soniodd am ymweliad gweinidogol yn y dyfodol sydd wedi'i gynllunio i nodi 'diwrnod Menter Gymdeithasol' er mwyn hyrwyddo gweithgarwch llwyddiannus.

Dywedodd **MEcon** wrth y grŵp, ei bod hi'n bwysig gwerthfawrogi'r ffaith bod menter gymdeithasol yn rhan werthfawr o'r sector busnes.

**Eitem 3 ar yr Agenda – Cyllid Llywodraeth y DU, (Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Cymru).**

Cyflwynodd **MB** y papur i'r grŵp a'r Gweinidog. Nododd **MB** y materion allweddol y mae'r sector gwirfoddol yn eu hwynebu ar hyn o bryd gyda chyllid Llywodraeth y DU. Roedd hyn yn cynnwys y gallu i gael gafael ar gyllid yn ogystal â chymorth cyffredinol o fewn fframweithiau presennol. Awgrymodd **MB** y gall fod yn ddefnyddiol

pe bai **MEcon** yn gallu ychwanegu unrhyw beth arall at y Gronfa Ffyniant Gyffredin, y Gronfa Fuddsoddi Cymunedol a'r agenda codi'r gwastad gyffredinol.

Pwysleisiodd **MEcon** y problemau presennol ynghylch cynllunio, cydgysylltu a chyflwyno'r cronfeydd. Nid oedd hyn mewn perthynas â diffyg ymgysylltiad Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru ond hefyd trafodaethau Llywodraeth y DU â sefydliadau allweddol ar lefel ranbarthol a lleol. Amlinellodd **MEcon** y pwysau a roddir ar awdurdodau lleol sydd wedi gorfod ymateb o fewn terfynau amser heriol iawn.

Aeth **MEcon** ymlaen i ddweud y dylai cronfeydd gael eu defnyddio i gefnogi'r prosiectau hynny sy'n cyflawni'r mwyaf o fanteision, ac nid y rhai hynny a wnaeth argraff dda wrth gyflwyno ceisiadau'n unig. Roedd hefyd yn bwysig sicrhau bod y cyllid yn cefnogi'r bobl hynny oedd ei angen fwyaf ac ardaloedd difreintiedig yr effeithiwyd arnynt.

Soniodd **MEcon** am gymorth busnes presennol a ariennir drwy raglenni'r UE. Byddai'n hoffi gweld dull gweithredu mwy optimistaidd a chael trafodaethau adeiladol gyda Llywodraeth y DU. Byddai'n cadarnhau gyda'r Llywodraeth bod y cynllun presennol yn broblem fawr. Nododd **MEcon** ei fod yn gobeithio y byddai Llywodraeth y DU yn mabwysiadu dull gweithredu mwy blaengar gyda gweinyddiaethau datganoledig.

Diolchodd **MB** i **MEcon** am ei adborth a oedd yn cyd-fynd â'r egwyddorion a nodwyd yn y papur. Wrth edrych ymlaen, awgrymodd **MB** ddulliau gweithredu gwahanol i wella system amherffaith. Yn ogystal, rhoddwyd cyngor ar sut y gall y sector gwirfoddol helpu i wella'r broses o gynllunio a chyflwyno'r cronfeydd.

Pwysleisiodd **MEcon** mai'r gred gyffredinol oedd y gellir manteisio'n fwy ar gymorth unedig a chynllun mwy cyfunol o'r broses (gan hefyd sicrhau bod lefelau'r cyllid yn parhau), gan ganolbwyntio ar gyllid i fusnesau a sgiliau yn benodol. Roedd yn bwysig cynnal momentwm ac roedd gan y sector gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae. Hefyd, nododd **MEcon** y broblem ynghylch y ffaith nad yw oriau gwirfoddoli yn gymwys fel cyllid cyfatebol a'r heriau a wynebodd sefydliadau a'r ddarpariaeth ar lawr gwlad. Bydd y papur gwyn yn rhoi rhagor o fanylion am sut y bydd pethau'n symud ymlaen.

Cytunodd **MB** â'r dull gweithredu hwn ac awgrymodd mai hon yw'r ffordd orau o symud ymlaen dan yr amgylchiadau presennol. Roedd cyfathrebu parhaus â'u cymheiriaid yn Lloegr i drafod materion a goblygiadau. Roedd cyngor a chefnogaeth hefyd yn fater allweddol wrth roi cyngor a chefnogi sefydliadau i wneud cais.

Amlinellodd **MEcon** y broblem bresennol o gael proses gystadleuol ar gyfer cynigion yn hytrach na phroses asesu'n seiliedig ar anghenion. Nid oes llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithio yn y ffordd hon, yn wahanol i'w cymheiriaid yn Lloegr, ac felly crëwyd proses anghyson o ran gwneud cais am gronfeydd ledled y DU. Mae **MEcon** wedi clywed am ymrwymiadau niferus i gynnal y cyfanswm cyffredinol blaenorol o ran cyllid. Fodd bynnag, nid oedd yn glir ar hyn o bryd sut y bydd hwn yn edrych ac yn datblygu wrth symud ymlaen.

**Eitem 4 ar yr Agenda– Unrhyw fusnes arall**

Rhoddodd **TW** wybod i'r Gweinidog am gynnig am gyllid sydd ar waith ynghylch Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Nod y cynnig oedd datblygu swyddi a sgiliau sy'n ymwneud ag adferiad gwyrdd.

Dywedodd **MEcon** na fyddai fel arfer yn ymwybodol o gynigion yn ystod y cam derbyn ond gofynnodd i'r swyddogion sicrhau ei fod yn gweld y cynnig.

**Cam gweithredu – Swyddogion i friffio'r Gweinidog ynglŷn â'r cynnig.**

Esboniodd **MRW** fod Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud cais i Gronfa Perchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y DU. Er ei fod yn dal yn ei gamau cynnar, bydd y cynnig yn cyllido canolfan hyfforddiant a sgiliau ym Mhen-y-waun.

Diolchodd **CR** i **MEcon** am ei gyfraniad diweddar at Busnes yn y Gymuned a oedd yn cael ei werthfawrogi gan aelodau'r bwrdd. Rhoddodd **CR** fwy o fanylion am ddatblygiadau gyda dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoliad ar gyfer y rhwydwaith sgiliau a busnes.

Diolchodd **MEcon** i bawb am eu cyfraniadau agored ac onest. Roedd yn bwysig dod o hyd i ddatrysiadau ar gyfer rhai o'r problemau presennol. Gyda hynny mewn cof, byddai'n fuddiol trefnu cyfarfod arall yn gynnar y flwyddyn nesaf.

**Cam gweithredu – AC i gydymffurfio â BL i drefnu cyfarfod yn y Flwyddyn Newydd**

**Cofnodydd: Andrew Chapman**

2 Tachwedd 2021

**Sylwadau'r cyfarfod:**

[12:23] Dave Williams (Gwestai)
cromlin dysgu ym maes daearyddiaeth ar gyfer cydweithwyr Llywodraeth y DU....

[12:27] Dave Williams (Gwestai)
nid yw ehangu'r pellter rhwng penderfynu ar gronfeydd a grantiau a'u cyflwyno yn aml yn ddefnyddiol – efallai ei bod hi'n bwysig penderfynu ar rai egwyddorion allweddol yma.

[12:30] McDonald, Claire (ESNR – Busnes a Rhanbarthau – Polisi Economaidd)

Os gwelwch yn dda, Matthew Brown. Byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.